

Cofnodion cyfarfod misol rhithwir Cyngor Cymuned Llanddona a gynhaliwyd
Chwefror 17deg 2021 am 7.00 o'r gloch.
Minutes of Llanddona Community Council virtual monthly meeting held on 17th
February 17th 2021 7.00pm

Presennol/Present - Cadeirydd/*Chairperson* Barbara Williams, Mark Griffiths, Myrddin Roberts, Maldwyn Williams, Martin Hennessey a Geraint Parry (Clerc/*Clerk*)
Cynghorwyr Sir/*County Councillors* – Alun Roberts a Carwyn Jones

1. **Ymddiheuriadau/Apologies** - Rhian Hughes, Hana Elin Baguley
2. **Cofnodion / Minutes** - Penderfynwyd derbyn y cofnodion o'r cyfarfod a gynhaliwyd ar 20fed o Ionawr fel rhai cywir gan Cyng. M Williams, eiliwyd gan Cyng. M Roberts / *Minutes of the previous meeting held on 20th January were accepted as accurate by Clr. M Williams, seconded by Clr M Roberts.*
3. **Datgan Diddordeb/Declaration of interest**
 - 3.1 Dim buddiant i ddatgan / *No interest to declare.*
4. **Materion yn codi o'r cofnodion / Matters arising from the minutes**
 - 4.1 Cyflwr Llwybr cyhoeddus ger Corn Yd a Tan y Gyrddyn - dywedodd y Clerc, ar ôl cysylltu â Swyddog Llwybr Troed y Cyngor Sir, ei fod wedi ymweld â'r safle a dywedodd fod y llwybr wedi'i dorri. Dywedodd Cyng. M Roberts fod y llwybr wedi'i dorri gan ein contractwr ein hunain ac nid gan berchennog Tan y Gyrddyn. / *Condition of the public footpath by Corn Yd and Tan y Gyrddyn - the Clerk reported that following contact with the Footpath Officer of the County Council, he visited the site and stated that the path has been cut. Clr. M Roberts reported that the path was cut by our own contractor and not by the owner of Tan y Gyrddyn.*
 - 4.2 Llefydd pasio ar y ffordd ganol o Llanddona i Langoed - Clerc i atgoffa'r Cyngor Sir / *Passing places on the middle road from Llanddona to Llangoed - Clerk to remind the County Council*
 - 4.3 Traeth – gofynnodd Cyng. A Roberts a oedd unrhyw gynnydd ar y mater? Dywedodd y Clerc nad oedd unrhyw gynnydd pellach dim ond am y clawdd tail. Cyng. A Roberts i drafod ymhellach gyda'r Cyngor Sir / *Clr. A Roberts enquired if there was any progress on this issue? The Clerk reported that there was no further progress only the creation of a manure hedge. Clr. Roberts to discuss further with the County Council.*
 - 4.4 Tyn Llan, hawddfrait - esboniodd y Clerc fod y datblygwr bellach wedi tynnu'r cais yn ôl am hawddfrait a'i fod yn edrych ar fynediad amgen i'r brif draen / *Tyn Llan, easement - the Clerk explained that the developer has now withdrawn the application for an easement and is looking at alternative access to the main drain.*
 - 4.5 Mae'r Clerc wedi adrodd y cwlffertau wedi'u blocio ger Penhwnllys Bach a ger Comin y Rhos / *Clerk has reported the blocked culverts by Penhwnllys Bach and by Comin y Rhos.*
 - 4.6 Maes Chwarae Plant - Clerc yn aros am ddyfynbris i gymryd lle'r matio rber / *Children's Play Area - Clerk is awaiting a quotation to replace the rubber matting*
5. **Adrodd gan y Cynghorwyr Sir / Report by County Councillors**
Cynghorydd / Councillor Alun Roberts
 - 5.1 Covid - nid yw ystadegau'n dda ar Ynys Môn, ar eu huchaf yng Nghymru. Mae'r straen newydd yn peri pryder mawr / *Covid - statistics are not good on Anglesey, highest in Wales. The new strain is a big concern.*
 - 5.2 Mae trafodaethau ar y gweill yn y Cyngor Sir i bennu treth y cyngor, a disgwylir y newyddion yn fuan iawn / *Discussions are underway at the County Council to set the council tax, news expected very soon.*

Cynghorydd / Councillor Carwyn Jones

- 5.3 Yn ddiolchgar i'r Cyngor Sir sydd o'r diwedd wedi codi blaenoriaeth Lôn Hafoty fel y gellir ei graeanu'n rheolaidd / *Grateful to the County Council that they have finally raised the priority of Lôn Hafoty so it can be gritted regularly.*
- 5.4 Mae etholiad i fod i gael ei gynnal ym mis Mai eleni i lenwi'r sedd wag yn Ward Seiriol / *An election is due to take place this May to fill the vacant seat in the Seiriol Ward.*
- 5.5 Wedi ymuno â'r Prosiect Arweinydd. Un prosiect mae'n gweithio arno gyda Menter Môn yw "Pryd ar Glud" yn Ward Seiriol. Ar hyn o bryd yn chwilio am fynegiant o ddiddordeb gan arlwywyr i ddechrau cynllun peilot / *Has joined the Leader Project. One project that he's working on with Menter Môn is "Meals on Wheels" in the Seiriol Ward. Currently looking for expression of interest from caterers to start a pilot scheme.*

6. Lôn Hafoty / Hafoty Road

Yn bresennol / *In attendance* - Deiliad Portffolio / *Portfolio Holder* - Bob Parry, Swyddogion Cyngor Sir / *County Council Officers* - Ll. Williams a R Hinchcliffe. Diolchwyd i'r Swyddogion am godi blaenoriaeth y ffordd fel y gellir ei graeanu bellach ynghyd â ffyrdd eraill.

Cafwyd trafodaeth ynglŷn â'r llifogydd rheolaidd ar y ffordd hon oherwydd bod y tir ar y naill ochr a'r llall yn uwch na'r ffordd a bod draeniau neu syddfau wedi'u rhwystro. Un awgrym a gyflwynwyd oedd ymchwilio i weld a ellid codi'r ffordd. Esboniwyd nad oedd y llifogydd yn fater hanesyddol ond ei fod wedi dod yn fwy o broblem dros y blynyddoedd diwethaf. Gall y llifogydd gymryd dyddiau i wasgaru a mae yn difrodi ymyl y ffordd, gan achosi i arwyneb y ffordd dorri i fyny.

Esboniwyd y gall cyllid fod ar gael os yw'r llifogydd yn effeithio ar eiddo lleol. Daeth y Swyddogion i'r casgliad i ymchwilio i'r sefyllfa ac adrodd yn ôl i'r Cyngor Cymuned / *The Officers were thanked for raising the priority of the road so that it can now be gritted along with other roads.*

Discussion took place regarding the regular flooding on this road due to the fact that the land on either side is higher than the road and that drains or soakaways have become blocked. One suggestion put forward was to investigate if the road could be raised. It was explained that the flooding was not a historic issue but has become more of a problem over the last few years. The flooding can take days to disperse and damages the the edge of the road, causing the road surface to break up.

It was explained that finance can become available if the flooding affects local properties. The Officers concluded to investigate the situation and report back to the Community Council.

7. Cwllwm Seiriol – Menter Môn

Yn bresennol / *In attendance* – Delyth Phillips (Swyddog Prosiect/Project Officer)

- 7.1 **Mapiau tir comin** - Darparwyd mapiau o dir comin er mwyn i'r Cyngor Cymuned nodi gwaith pellach posibl pe caniateid cyllid. Mynegodd Cyng. M Roberts bryder ynghylch cynnal a chadw'r helyg a nodwyd, yn enwedig wrth ystyried y tymor nythu. Cytunwyd ar gyfarfod safle am 9am ar 20/02/21 i nodi'r gwaith. Hefyd cododd Cynghorwyr bryder am y gwaith sydd wedi digwydd a pha waith a chyllid sydd ar ôl ar gyfer gweddill y prosiect.

Maps of common land - *Maps of common land were supplied in order for the Community Council to identify potential further works if finances permit. Clr. M Roberts expressed concern regarding the maintenance of the willow identified, especially with consideration of the nesting season. A site meeting was agreed at 9am on 20/02/21 to identify the work. Also Councillors raised concern about the work that has taken place and what work and funding is left for the remainder of the project.*

- 7.2 **Cynllun Porri** – ei anfon ymlaen i'n hystyried. Y Cyngor Cymuned i benderfynu pa gynllun sydd fwyaf addas. Mae contractwr yn gweithio ar adran ganol Comin y Rhos yn torri'r ardal ar gyfer y ffens drydan. Rhagwelir y bydd y gwaith hwn yn cael ei gwblhau cyn diwedd mis Mawrth. Mae stoc briodol wedi'i nodi i bori'r ardal hon. Argymhellwyd bod digon o arwyddion rhybudd yn cael eu rhoi ar waith ac ar y cyfryngau cymdeithasol, er mwyn cynghori'r cyhoedd.

Grazing Plan - was forwarded for our consideration. The Community Council to decide which plan is best suited. A contractor is working on the centre section of the Rhos Common, cutting the area for the electric fence. It is envisaged that this work will be completed before the end of March. Appropriate stock has been identified to graze this area. It was recommended that sufficient warning signs are put in place and on social media, in order to advise the public.

- 7.2 **Paneli** - dywedodd y Clerc fod y cais cynllunio wedi'i gyflwyno ar 16/02. Pwyllgor Neuadd y Pentref i benderfynu lleoliad y paneli a threfnu llafur i'w godi.
Panels - The Clerk stated that the planning application was submitted on the 16/02. The Village Hall committee to decide the location for the panels and arrange labour to erect.
- 7.3 **Arwydd traffig Comin Rhos** - dywedodd Delyth ei bod wedi trafod y gwaith adnewyddu gyda chontractwyr lleol.
Traffic sign of Rhos Common - Delyth stated that she has discussed the refurbishment work with local contractors.
- 7.4 **Cerflun Helyg** - mae'r gymuned leol wedi cytuno ar ddylunio. Cytunwyd y bydd y dylunydd yn rhannu lluniau o'r cynnydd. Lleoliad y cerflun i'w benderfynu gan bwyllgor Neuadd y Pentref.
Willow Sculpture - design has been agreed by the local community. It was agreed that the designer will share photos of the progress. The location of the sculpture to be decided by the Village Hall committee.
- 7.5 **Taflen Wybodaeth y Warchodfa Natur Leol** - Cyngor Cymuned i benderfynu a oes angen ei diweddarau / **Local Nature Reserve Information sheet** - Community Council to decide if it needs to be updated
- 7.6 **Grŵp ymgynghori** - Cytunwyd y gellir trefnu cyfarfodydd grŵp arbennig i drafod materion parhaus gyda'r prosiect.
Consultation group - It was agreed that special group meetings can be arranged to discuss on-going issues with the project
- 7.7 **Fideo** - aros i Menter Môn greu fideo ar gyfer y cyfryngau cymdeithasol
Video - awaiting Menter Môn to create a video for social media
- 7.8 **Ariannu Prosiect** - esboniodd Delyth mai drwy PlantLife Cymru y mae'r cyllid ar gyfer y prosiect
Project Funding - Delyth explained that the funding for the project is via PlantLife Wales

8. Ceisiadau Cynllunio / Planning Applications

- 8.1 DIS/2021/2 - Mynydd Crafoed - cais i ryddhau amod (08) (Cynllun rheoli traffic adeiladu) o ganiatâd cynllunio FPL/2020/211 ar dir - gwrthwynebu'r cais i ryddhau amod 08. Dywedodd Cyng. A Roberts y byddai'n cefnogi ymhellach y defnydd o beidio â thynnu amod yn 08. / *Application to discharge condition (08) (Construction traffic management plan) of planning permission FPL/2020/211 on land - to object to the request to remove condition 08. Clr. A Roberts stated that he would further support the application of not withdrawing condition 08*
- 8.2 HHP/2020/223 – Bwlch y Ffos - cais llawn ar gyfer addasu ac ehangu – dim gwrthwynebiad / *Full application for alterations and extensions – no objection*
- 8.3 HHP/2021/45 – Castell, Llanddona - Cais llawn ar gyfer dymchwel, addasu ac ehangu – dim gwrthwynebiad / *Full application for demolition, alterations and extensions – no objection*

9. Cyfrifon / Accounts

- 9.1 Bancio ar-lein - Dywedodd y Clerc fod llythyr o gadarnhad wedi dod i law gan y Banc / *On-Line Banking - The Clerk stated that a letter of confirmation has been received from the Bank*
Anfonebau i'w talu / Invoices for payment:-
- 9.2 Playsafety – ROSPA - £82.20

- 9.3 MacVenture - Maes Chwarae / *Playground* - £336.00
 9.4 Awdit Cymru / *Audit Wales* 2019/20 - £305.04
 9.5 Cyngor Sir / *IOACC* - £230.00
Derbyniadau / Receipts
 9.6 Cyngor Sir – ad-daliad llwybrau / *IOACC – footpath refund* - £1,361.30

10. Awdit / Audit

Dywedodd y Clerc fod Archwilio Cymru wedi cyhoeddi'r rhaglen waith 3 blynedd ar ran y Cyngor Cymuned / *Clerk stated that Audit Wales has announced the 3 year work programme on behalf of the Community Council*

- 2020/21 – sylfaenol / *basic*
- 2021/22 – sylfaenol / *basic*
- 2022/23 – llawn / *full*

11. Gohebiaeth / Correspondence

- Peiriannau Dwr – Cyngor Sir / *Water Dispensers – County Council*
- Hyfforddiant mis Mawrth – Un Llais / *March training – One Voice Wales*
- Ymgynhoriad drafft Cod Ymddygiad / *Draft Guidance Code of Conduct – Ombudsmon*
- Cyfrifiad 2021 – Cyngor Sir / *Census 2021 – County Council*
- Prosiect Wylfa/ *Wylfa Project – Wylfa*
- Llythyr - cyflwr mynwentydd / *Letter – condition of cemeteries*

12. UFA / AOB

- 12.1 Eglurodd y Clerc ei bryder ynglŷn â'r diffyg gwybodaeth am geisiadau cynllunio sy'n dod o'r Adran Gynllunio ac mae wedi troi at fonitro'r wefan Gynllunio er gwybodaeth. Nododd Cyng. A Roberts ei bod yn anodd iawn ymateb o fewn y 21 diwrnod statudol i geisiadau o dan yr amgylchiadau hyn ac y bydd yn codi hyn gyda'r Adran Gynllunio. / *The Clerk explained his concern regarding the lack of information regarding planning applications coming from the Planning Department and has resorted to monitoring the Planning website for information. Clr. A Roberts noted that its very difficult to respond within the statutory 21 days to applications under these circumstances and will be raising this with the Planning Department.*
- 12.2 Esboniodd y Clerc ei fod wedi creu e-bost swyddogol ar ran y Cyngor Cymuned - ac y bydd yn creu "sut i arwain" i Gynghorwyr / *The Clerk explained that he has created an official e-mail on behalf of the Community Council and will create a "how to guide" for Councillors*
- 12.3 Esboniodd y Clerc fod cais wedi'i dderbyn gan Rwydweithiau Ynni SP i gyflenwi cyflenwad trydan tanddaearol foltedd isel newydd ar draws tir comin i Troed y Rhiw, Llanddona. Penderfynwyd yn unfrydol i gymeradwyo'r cais / *The Clerk explained that a request has been received from SP Energy Networks to supply new low voltage underground electricity supply across common land to Troed y Rhiw, Llanddona. It was unanimously resolved to approve the application.*
- 12.4 Gwnaed cais i weld a oedd y Cyngor Cymuned yn derbyn wayleave ar gyfer y post trydan gan Cherry Tree Cottage. Clerc i wirio. / *A request was made to check if the Community Council received wayleave for the electricity post by Cherry Tree Cottage. Clerk to check.*
- 12.5 Derbyniwyd cais gan y Cyngor Sir i godi peiriant dosbarthu dŵr yn yr ardal. Gan fod hyn wedi'i drafod a'i wrthod o'r blaen oherwydd costau cynnal a chadw, mae'r Clerc i ymateb / *A request has been received from the County Council to erect a water dispenser in the locality. As this has been previously discussed and turned down due to maintenance costs, Clerk to reply.*
- 12.6 Atgoffodd y Cadeirydd o'r angen i gyflawni'r seddi gwag. Clerc i drefnu cyfethol. Cafwyd trafodaeth hefyd ynglŷn â chyfieithu yn ystod cyfarfodydd / *The Chairperson reminded of the need to fulfil the vacant seats. Clerk to arrange to co-opt. Discussion also took place regarding translation during meetings.*

12.7 Derbyniwyd llythyr yn diolch y Cyngor Cymuned am gyflwr rhagorol y Mynwentydd / *A letter has been received thanking the Community Council about the excellent condition of the Cemeteries.*

13. Dyddiad cyfarfod nesaf / Date of next meeting:

Nid oedd mwy o fusnes i'w drafod. Daeth y cyfarfod i ben 21:20. Cyfarfod nesaf ar 17/03/21 am 19:30 /*There was no further business to discuss. Meeting ended 21:20pm. Next meeting to be held on 17/03/21 at 19:30pm.*

Llofnod y Cadeirydd

Dyddiad